Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 27.05.2021

## COVID-19: Datganiad Llywodraeth Cymru: Amrywiolynnau newydd o’r coronafeirws

Mae’r Prif Weinidog wedi rhyddhau datganiad ysgrifenedig am yr amrywiolynnau newydd o’r coronafeirws. Mae ymwelwyr i Gymru o ardaloedd â chyfraddau uwch o’r coronafeirws yn cael eu hannog i brofi eu hunain ddwywaith yr wythnos, a dim ond i deithio wedi canlyniad prawf negatif a phetaent heb symptomau’r coronafeirws. Dylai pawb sy’n dod i Gymru o ardaloedd â chyfraddau uwch ddod â phecynnau profion llif unffordd gyda nhw i barhau i brofi eu hunain yn rheolaidd tra byddant ar wyliau. I ddarllen y datganiad, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-amrywiolynnau-newydd-or-coronafeirws

## COVID-19: y cyhoedd yn cael eu hannog i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer Gŵyl y Banc

Mae datganiad ar y cyd wedi ei ryddhau gan awdurdodau Gogledd Orllewin Cymru yn amlinellu eu cynlluniau i wneud y tymor ymwelwyr yma yn brofiad diogel a chadarnhaol ac yn annog y cyhoedd i chwarae eu rhan. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

http://bit.ly/DatganiadGwynedd27Mai2021

Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi gosod arwyddion ychwanegol i annog ymweliadau diogel a hyrwyddo defnydd o wersylloedd dynodedig. I gael golwg ar yr arwyddion, ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

# COVID-19: Cyngor cyfredol

Ar gyfer gwybodaeth am reoliadau Lefel Rhybudd 2, gan gynnwys dolen i gwestiynau cyffredin Lefel Rhybudd 2, ewch i:

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-2

I gael y cyngor, y canllawiau a’r deunyddiau diweddaraf i gadw eich staff a’ch cwsmeriaid yn ddiogel, ewch i:

https://llyw.cymru/diogelu-cymru-canllawiau-i-dwristiaeth-a-lletygarwch-html
https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/diogelu-cymru-yn-y-gweithle
https://llyw.cymru/aros-yn-ddiogel-yn-y-gwaith
https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

# TWRISTIAETH A LLETYGARWCH: Rhagarchebu lle parcio ym Mhen y Pass

Tan yr hydref, dim ond y rhai sydd â chadarnhad o archeb ymlaen llaw fydd yn cael mynediad i faes parcio Pen y Pass (mae’r meysydd parcio eraill ar gyfer llwybrau’r Wyddfa yn gweithredu fel arfer). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/2ToURXJ

# RECRIWTIO: Gwaith Gwynedd

Mae menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd, yn gweithio i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith. Gall y fenter hefyd helpu busnesau i hyrwyddo cyfleoedd gwaith. Ceir mwy o wybodaeth ar:

http://bit.ly/GwaithGwyneddEng

Bydd Gwaith Gwynedd yn cynnal ffair swyddi ar gyfer y sector twristiaeth a lletygarwch yn y dyfodol agos. Os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â:

Gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru neu 01286 679211

# BWYD A DIOD: Gweithdai a Dosbarthiadau Meistr

Yn ystod mis Mehefin, bydd Sgiliau Bwyd Cymru yn cynnig nifer o gyrsiau wedi eu hariannu'n llawn ar gyfer unrhyw fusnes sy'n cyrchu, gweini a gwerthu bwyd Cymreig, gan gynnwys; Steilio bwyd a ffotograffiaeth, Adnewyddu'r fwydlen, Creu profiad lleol unigryw a mwy.

Am fwy o wybodaeth am bob cwrs unigol ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3yKiA4C

# BWYD A DIOD: Cystadleuaeth Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Systemau Bwyd

Mae Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Systemau Bwyd wedi lansio cystadleuaeth, 'Busnes Bach Gorau: Bwyd Da i Bawb', i nodi'r 50 o fusnesau gorau (yn fyd-eang) o fewn y diwydiant bwyd sy'n cyfrannu mewn modd cadarnhaol at system fwyd sy'n gadarn ac yn gynaliadwy. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 4 Mehefin 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.un.org/en/food-systems-summit/best-small-business-comp

# GWEITHGYNHYRCHU: MADE Cymru: cyrsiau yn dechrau 4 Mehefin 2021

Mae rhaglenni MADE Cymru, 'Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0' a 'Rheoli Arloesedd', a ariennir gan yr UE, yn dechrau cyrsiau ar 4 Mehefin 2021. Am fwy o wybodaeth am y ddwy raglen yma, ewch i:

https://www.madecymru.co.uk/cy/

## GWEITHGYNHYRCHU: Uwchgynhadledd Diwydiant MADE Cymru: 8 – 10 Mehefin 2021

Mae cyfres o ddigwyddiadau am ddim, dan arweiniad siaradwyr allweddol y diwydiant, i hysbysu, ymgysylltu ac ysbrydoli busnesau yn cael eu cynnal fel rhan o'r uwchgynhadledd. I gofrestru ymlaen llaw, ewch i:

https://uwtsd.ac.uk/cy/made/uwchgynhadledd-diwydiant-made-cymru/

## BREXIT: Gohirio datganiadau am nwyddau'r UE a ddygir i Brydain Fawr

Gwiriwch a allwch oedi hyd at 175 diwrnod, cyn anfon gwybodaeth lawn at CThEM am eich nwyddau, a'r camau y mae angen i chi eu cymryd cyn y dyddiad cau. Ewch i:

https://bit.ly/2QVlZN1

## BREXIT: Gweminar Rheolau o ran Tarddiad ar gael i fusnesau yng Nghymru

Mae masnachwyr yng Nghymru yn cael eu hannog i wylio gweminar newydd CThEM ar Reolau o ran Tarddiad i sicrhau eu bod yn manteisio ar y cyfraddau tariff ffafriol sydd wedi bod ar gael iddynt ers 1 Ionawr am nwyddau y maent yn eu masnachu gyda'r UE. I wylio'r weminar, ewch i:

https://www.youtube.com/watch?v=xOFrLn5RpZE

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru